# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 18FED MAWRTH, 2016**

***NODER***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD 10/3/16)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

**www.gwynedd.llyw.cymru**

**DYDD IAU, 10 MAWRTH 2016**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD GWENER, 18 MAWRTH 2016**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **10.00 y.b., DYDD GWENER, 18FED MAWRTH, 2016 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

<u>Prif Weithredwr</u>

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. CWESTIWN

Ystyried cwestiwn a roddwyd rhybudd.

## 7. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Yn unol â rhan 4.12.1 (d) o'r Cyfansoddiad derbyniwyd llythyr gan Cyng. Aled Evans a oedd wedi cael ei arwyddo gan 9 o gynghorwyr eraill a oedd yn gofyn am gyfarfod o'r Cyngor i drafod: "agwedd ar y Cynllun Datblygu Lleol (Gwynedd a Môn), sef y dull aed ati i gloriannu effaith y cynllun arfaethedig hwn ar yr iaith Gymraeg. Teimlwn nad ydyw'r hyn a wnaed ynddo yn dderbyniol o ran amddiffyn y Gymraeg a hoffem ystyried camau pellach i ddadwneud y diffyg hwn."

### (A) CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD A'R IAITH GYMRAEG — 1 - 14

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Cynllunio.

### (B) GWYBODAETH A GYFLWYNIR GAN Y CYNGHORYDD ALED EVANS — I ddilyn

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth 2016** |
| **TEITL** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r iaith Gymraeg** |
| **PWRPAS** | **Atgoffa'r Cyngor o sut mae datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd wedi rhoi ystyriaeth i les yr iaith Gymraeg.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Er gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Nia Haf Davies, Rheolwr Cynllunio (Polisi)** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Dafydd Meurig** |

**Cefndir**

1. Yn unol â rhan 4.12.1 (d) o'r Cyfansoddiad derbyniwyd llythyr gan Cyng. Aled Evans a oedd wedi cael ei arwyddo gan 9 o gynghorwyr eraill a oedd yn gofyn am gyfarfod o'r Cyngor i drafod: "agwedd ar y Cynllun Datblygu Lleol (Gwynedd a Môn), sef y dull aed ati i gloriannu effaith y cynllun arfaethedig hwn ar yr iaith Gymraeg. Teimlwn nad ydyw'r hyn a wnaed ynddo yn dderbyniol o ran amddiffyn y Gymraeg a hoffem ystyried camau pellach i ddadwneud y diffyg hwn."

**Cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau am y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

2. Mae cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd wedi cael ei osod yn y cytundeb a gafodd ei arwyddo gan y ddau Gyngor yn unigol ym mis Hydref 2010.

3. O dan y cytundeb rôl y Cynghorau unigol ydi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni a mabwysiadu'r Cynllun. O dan y cytundeb, rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ydi cynghori ar y Cytundeb Cyflawni, cynghori ar y ddogfen Hoff Strategaeth, cytuno ar y Cynllun Adnau, cytuno ar y newidiadau â ffocws, ac yn olaf derbyn adroddiad yr Arolygydd cyn ei gyflwyno i'r ddau Gyngor unigol am gymeradwyaeth. Gweler paragraff 39 islaw am benderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ynglyn a'r Cynllun Adnau

4. Mae'r cyfrifoldebau yma wedi cael eu hail-adrodd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol a gafodd ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor unigol erbyn Hydref 2011. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae yna gytundeb rhwng y ddau Gyngor a Llywodraeth Cymru ynglyn â sut a phryd mae'r Cynllun yn cael ei baratoi. Atgoffir yr Aelodau fod y Cyngor wedi cymeradwyo diwygiad i'r amserlen i'w gynnwys yn y Cytundeb Cyflawni yn ystod ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2016.

**Cyd-destun deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol – paratoi cynlluniau datblygu lleol ar y cyd ac asesu effaith ar yr iaith Gymraeg**

5. Rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal.

6. Dylai'r CDLl gael ei baratoi yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005**, Polisi Cynllunio Cymru, yn enwedig Pennod 2 ar gynlluniau datblygu a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (2015).

7. Dylai'r CDLl ganolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol sy'n cael eu hadnabod mewn strategaethau lleol a sylfaen o dystiolaeth.

8. Mae'n ofynnol o dan Adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 bod Cynghorau yn cynnal **Asesiad Cynaliadwyedd** o'r CDLl ac yn paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r Asesiad hwnnw. Pwrpas yr Asesiad Cynaliadwyedd yw asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol strategaeth a'r polisïau a geir mewn CDLl, a hynny o ddechrau'r broses.

9. Mae'n ofynnol o dan Adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 bod yr Asesiad Cynaliadwyedd yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y Cynllun ar ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

**Trosolwg o'r prosesau**

10. Mae'r siart lif yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r broses paratoi cynlluniau datblygu lleol a'r asesiad cynaliadwyedd, gan nodi sut a phryd y gallai'r Cynghorau ymgorffori ystyriaeth o'r Gymraeg wrth lunio'r Cynllun. Mae hyn yn dangos lle mae ystyriaeth o effeithiau ar y Gymraeg yn cyd-fynd â'r broses ehangach o lunio Cynllun.

**Y dystiolaeth**

11. Mae yna sawl ffynhonnell ddefnyddiol o ddata a gwybodaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg. Maent yn cynnwys:

    i. Data'r Cyfrifiad
    ii. Strategaethau a mentrau lleol
    iii. Darpariaeth addysg
    iv. Cyfleusterau cymunedol
    v. Arolwg Defnyddio'r Iaith
    vi. Arolwg Tai ac Iaith Môn a Gwynedd, gan gynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri

12. Mae Llyfrgell y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys y dogfennau canlynol sy'n rhoi trosolwg o wybodaeth am yr iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Mae Papurau Testun a Chefndir amrywiol eraill yn y Llyfrgell ynglyn ag isadeiledd sy'n bwysig i gynnal a chryfhau cymunedau lleol – y cynhwysion lleol:
    i. Papur Testun 10 Iaith Gymraeg a diwylliant (2013) https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/Iaith-Gymraeg-a-Diwylliant.pdf
    ii. Papur Testun 10A Proffil iaith Gwynedd (2014) https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/Papur-Testun-10A-Proffil-Iaith-Gwynedd.pdf
    iii. Papur Testun 10B Proffil iaith Ynys Môn (2014) <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/10b-Darlun-ystadegol-o-sefyllfar-Gymraeg-yn-Ynys-Môn-(Mawrth-2014)---Terfynol.pdf>
    iv. Arolwg Tai ac Iaith (2014) https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/Arolwg-Tai-ar-Iaith-Gymraeg-Gwynedd-ac-Ynys-Mon---ADRODDIAD-LLAWN-TERFY-.pdf

**Cyfranogiad ac ymgynghori cyhoeddus (gan gynnwys mewnbwn Cynghorwyr) a phroses gwneud penderfyniadau**

13. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cysylltu gyda Chynghorwyr y ddwy Sir sawl gwaith ar hyd y daith. Mae'r paragraffau nesaf yn rhoi trosolwg o bryd a sut cafwyd mewnbwn gan Gynghorwyr a'r cyhoedd ers 2011.

<u>Paratoi'r Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus, sef ail ran y Cytundeb Cyflawni</u>

14. Ymgynghori cyhoeddus: 14 Ebrill 2011 – 2 Mehefin 2011;

15. Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar 13 Medi a 20 Hydref 2011, yn y drefn honno.

Adolygu'r sail dystiolaeth a phenderfynu ar weledigaeth, amcanion, a strategaeth

16. Cyfnod cyfranogiad cyhoeddus: 8 Tachwedd 2011 – 31 Ionawr 2012;

17. Seminarau i holl Gynghorwyr: 25 Tachwedd 2011 (Ynys Môn); 5 Rhagfyr 2011 (Gwynedd); 7 Rhagfyr 2011 (Gwynedd);

18. Cyfarfodydd grwpiau amrywiol sy'n cynnwys: Grwp Rhanddeiliaid Allweddol; Llais Ni; Grwp Tai; Grwpiau Pobl Hyn; Grwp Plant a Phobl Ifanc; Grwpiau Anabledd.

19. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Bwrdd Cyngor Gwynedd, Bwrdd Comisiynwyr Ynys Môn er mwyn cael penderfyniad am y cyfeiriad strategol.

Datblygu'r ddogfen Hoff Strategaeth

20. Seminarau i holl Gynghorwyr am bynciau amrywiol: Hydref 2012, Rhagfyr 2012, Ionawr 2013;

21. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Cabinet Cyngor Gwynedd, Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, gyda'r ddau olaf yn gwneud penderfyniad ar gynnwys yr Hoff Strategaeth.

Datblygu'r Cynllun Adnau

22. Pwyllgor Iaith: Hydref 2013 – gwybodaeth am y fethodoleg asesu effaith ieithyddol;

23. Penderfynodd y Pwyllgor Iaith i sefydlu Grwp Tasg a Gorffen - Cynllunio a'r iaith Gymraeg i gynnwys trawsdoriad o Gynghorwyr. Pwrpas y Grwp yma oedd rhoi mewnbwn ar ran Cyngor Gwynedd, i sicrhau fod amcanion strategol y Cyngor mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg yn cael eu bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu polisïau cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Cafwyd Cyfarfodydd ym mis Tachwedd 2013 ac Ionawr 20014 - trafodaeth am y fethodoleg effaith ieithyddol, y sail dystiolaeth, datblygu proffiliau aneddleoedd i asesu effaith. Ni dderbyniwyd cynnig i ddiwygio'r fethodoleg nac awgrymiadau am ffynonellau tystiolaeth ychwanegol;

24. Rhoddodd Rheolwr yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gyflwyniad i gyfarfod Grwpiau Iaith ardal Arfon: Chwefror 2014;

25. Seminarau i holl Gynghorwyr y ddwy Sir am faterion tai: Mai 2014;

26. Seminarau i holl Gynghorwyr a chynrychiolwyr Cynghorau Cymuned am faterion amrywiol: Hydref 2014, Tachwedd 2014;

27. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: misol rhwng Gorffennaf 2013 – Tachwedd 2014 – ystyried y sylwadau a gafwyd am yr Hoff Strategaeth a chasgliadau tystiolaeth;

28. Cabinet Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn derbyn adroddiad am gynnwys y Cynllun Adnau ac yn ei gefnogi: Rhagfyr 2014;

29. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn penderfynu ym mis Rhagfyr 2014 ar gynnwys y Cynllun Adnau, ac felly ei gadernid ar ôl ystyried y sylwadau, a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**Asesiad Cynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol)**

30. Mae'r broses Asesiad Cynaliadwyedd, sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofyniad statudol ac yn broses ailadroddus o'r cychwyn. Defnyddiwyd methodoleg gydnabyddedig sy'n cael ei ddefnyddio traws gwlad i fynd trwy'r broses Asesiad Cynaliadwyedd. Ar ôl ystyried cynlluniau a rhaglenni amrywiol a gwybodaeth sail gynhwysfawr cafodd Adroddiad Sgopio ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2011. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus cafodd Fframwaith Cynaliadwyedd ei baratoi sy'n cynnwys cyfres o amcanion, cwestiynau a dangosyddion. Gweler copi o'r Fframwaith Asesiad Cynaliadwyedd yn Atodiad 2. Yn unol â deddfwriaeth a pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol mae'r Fframwaith Cynaliadwyedd yn ymgorffori ystyriaeth o'r iaith Gymraeg o safbwynt ei pherthnasedd i ddefnydd tir. Mae'r Fframwaith Cynaliadwyedd wedi cael ei ddefnyddio i asesu opsiynau strategol, safleoedd a pholisïau'r Cynllun trwy gydol y broses. Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol wedi cynorthwyo'r broses Asesiad Cynaliadwyedd i ddod i gasgliad ynglyn a sut mae'r strategaeth a'r polisïau yn debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau.

31. Cafodd Adroddiad am yr Asesiad Cynaliadwyedd o'r Hoff Strategaeth ac Adroddiad am yr Asesiad Cynaliadwyedd o'r Cynllun Adnau eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 'run pryd a'r ddogfen Hoff Strategaeth a'r Cynllun Adnau ym mis Mai 2013 a mis Chwefror 2015, yn y drefn honno. <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Asesiadau-ac-Arfarniadau.aspx> Bydd Adroddiad terfynol am yr Asesiad Cynaliadwyedd yn rhan o Lyfrgell yr Archwiliad.

**Asesiad Effaith Ieithyddol**

32. Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol o'r Cynllun yn broses ailadroddus, sy'n ystyried y Gymraeg a'r defnydd ohoni o safbwynt eu perthnasedd i ddefnydd tir o'r cychwyn. Felly, er mwyn cael sail i'r Asesiad Cynaliadwyedd mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol yn cynnwys asesiad o dystiolaeth o effeithiau strategaeth, polisïau a dynodiadau gofodol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni a chynaliadwyedd cymunedau. Mae'n cynorthwyo'r Cynghorau i asesu sut mae'r Cynllun yn mynd i gyfarch ei weledigaeth a'i amcanion.

33. Cyn cychwyn y broses Asesiad Effaith Ieithyddol cafwyd barn Unedau Iaith y ddau Gyngor. Cytunwyd i ddefnyddio methodoleg gydnabyddedig i ymgymryd â'r broses, sef methodoleg sydd wedi ei alinio gyda chanllawiau a gafodd eu datblygu gan gonsortiwm o awdurdodau cynllunio a phartneriaid eraill a oedd yn cynnwys Bwrdd yr Iaith ("Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen") a gyda chanllawiau cynllunio technegol gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir yr un fethodoleg gan awdurdodau eraill adeg paratoi eu cynlluniau datblygu ac i ystyried ceisiadau cynllunio perthnasol.

34. Mae'r broses yn cychwyn gyda chasglu, cofnodi a dadansoddi gwybodaeth er mwyn magu dealltwriaeth o nodweddion cymdeithasol ac economaidd ardal y Cynllun. Cofnodir y wybodaeth mewn cyfres o Bapurau Testun a Chefndir sydd yn Llyfrgell yr Archwiliad.

35. Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol, yn debyg i'r Asesiad Cynaliadwyedd, wedyn yn edrych ar gymunedau mewn modd holistaidd, gan roi sylw priodol i'r iaith fel elfen sy'n rhan annatod o fywyd cymunedau a gweithgareddau mewn cymunedau. Mae'n estyniad o'r fethodoleg gynaliadwy lle mae nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn dylanwadu ei gilydd a lle mae newid mewn un parth yn gallu dylanwadu ar un arall. Lle mae angen hynny mae'n adnabod/ cefnogi mesurau lliniaru a mesurau ymyrryd bositif a fydd yn fodd o gynorthwyo cymunedau i ffynnu.

36. Cyhoeddwyd Adroddiad am yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a oedd yn cynnwys disgrifiad o'r fethodoleg a chasgliadau'r Asesiad o ddatblygiad yr Hoff Strategaeth, fel dogfen gefndir 'run pryd a'r ymgynghoriad cyhoeddus am y ddogfen Hoff Strategaeth ym mis Mai 2013. Gallir gweld yr Adroddiad yma yn <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Asesiadau-ac-Arfarniadau/Asesiad-Effaith-ar-yr-Iaith-Gymraeg.pdf>

37. Cafodd ail rifyn yr Adroddiad am yr Asesiad Effaith Ieithyddol, a oedd yn cofnodi'r casgliadau am strategaeth, polisïau a chynigion y Cynllun Adnau, ei gyhoeddi fel dogfen gefndir run pryd a'r ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau ym mis Chwefror 2015. Mae'n adnabod mesurau lliniaru ac ymyriadau positif. https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/Asesiad-effaith-ieithyddol.pdf Mae tabl 7 yn rhan 5 o'r Cynllun Adnau yn disgrifio'r ddolen rhwng yr amcanion, polisïau a'r dangosyddion monitro. Bydd trydydd rifyn yr Adroddiad am yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn rhan o Lyfrgell yr Archwiliad.

**Yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau: Chwefror – Mawrth 2015**

38. Derbyniwyd gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus am y Cynllun Adnau a oedd yn mynegi pryderon ynglyn ag effaith hyrwyddo 7,184 o unedau tai yn ardal y Cynllun yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026). Cyfeiriodd rhai o'r gwrthwynebwyr yma at gasgliadau'r Asesiad Effaith Ieithyddol. Pwysleisir y rhoddwyd ystyriaeth i bob un o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, yn gyntaf yng nghyfarfodydd y Panel yn ystod 2015 ac wedyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 29 Ionawr 2016.

**Penderfyniad Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd – Ionawr 2016**

39. Penderfynodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd bod y Cynllun yn parhau yn 'gadarn', yn ddarostyngedig i nifer o Newidiadau â Ffocws, ac y dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=247&mid=260&ver=4&

40. Mae penderfyniad y Pwyllgor ar y Cyd i gyfeirio'r mater ymlaen i broses o gyflwyno'r Cynllun i gyfnod o Archwiliad wedi ei wneud ac mae camau bellach yn cael eu cymryd i weithredu'r penderfyniad ar ran y ddau Gyngor. Mae hyn yn unol â'r cytundeb rhwng Gwynedd a Môn a hawliau dirprwyedig y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Am y rheswm yma ni ellir mynd yn ôl a gwyrdroi'r penderfyniad yma, na ychwaith ail agor elfennau o'r Cynllun. Mae'r awdurdodau wedi canfod (yn yr un modd ag y gwaethant wrth gymeradwyo'r Cynllun Adnau ym mis Rhagfyr 2014) fod y Cynllun yn gadarn drwy'r penderfyniad yma. Pwysleisir bydd cyfle yn awr i wrthwynebwyr gyflwyno eu hachosion ger bron yr Ymchwiliad.

41. Mae'r Newidiadau â Ffocws a gyfeirir ato uchod ym mharagraff 39 yn cynnwys 11 o Newidiadau â Ffocws a gafodd eu cymeradwyo ar ôl rhoi sylw llawn i'r gwrthwynebiadau a gyfeiriwyd ato ym mharagraff 38 uchod, sef y gwrthwynebiadau am effaith y Cynllun les yr iaith Gymraeg.

**Ymgynghori am y Newidiadau â Ffocws**

42. Mae'r Gofrestr o Newidiadau â Ffocws yn destun ymgynghoriad cyhoeddus hyd at 13 Ebrill 2016. Gallir gweld y ddogfen yn https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd.aspx

43. Bydd sylwadau o blaid a gwrthwynebiadau am y Newidiadau â Ffocws a gaiff eu cyflwyno'n briodol yn cael eu cofrestru a'u gyrru ymlaen i'r Arolygiaeth Cynllunio er mwyn i'r Arolygydd roi ystyriaeth iddynt. Bydd gan wrthwynebwyr hawl i gymryd rhan mewn gwrandawiad perthnasol i gyflwyno'u hachos.

**Yr Archwiliad Cyhoeddus**

44. Bydd Arolygydd annibynnol yn cael ei benodi gan yr Arolygiaeth Cynllunio i gynnal yr Archwiliad Cyhoeddus. Rôl yr Arolygydd a benodir yw cynnal asesiad annibynnol o gadernid cyffredinol y Cynllun, a'i fod yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ei baratoi. Mae hyn yn golygu ymdrin â'r prif faterion sydd wrth wraidd y Cynllun. Bydd y gwrthwynebwyr sydd yn dymuno gweld newidiadau i'r Cynllun ac sydd wedi mynegi dymuniad i gael eu clywed yn derbyn gwahoddiad gan yr Arolygydd i fynychu Gwrandawiadau Cyhoeddus perthnasol. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y

Gwrandawiadau Cyhoeddus yn digwydd yn ystod mis Medi a Hydref 2016. Bydd mwy o wybodaeth am raglen y Gwrandawiadau Cyhoeddus yn cael ei ryddhau yn ystod y Cyfarfod Cyn Gwrandawiadau.


**Casgliad**

45. Bod y broses wedi bod yn un gwbl gynhwysol, gyda nifer o gyfleoedd wedi bod trwy gydol y broses i Gynghorwyr a chymunedau gael mewnbwn, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a gafodd ei gymeradwyo gan y Cynghorau ar ddechrau'r broses.

46. Bod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi bodloni'r gofynion statudol, gan gynnwys ystyried y Gymraeg a'r defnydd ohoni o safbwynt eu perthnasedd i ddefnydd tir.

Atodiad 1: Siart Lif - Trosolwg o brosesau paratoi cynlluniau datblygu lleol

Atodiad 2: Fframwaith Asesiad Cynaliadwyedd


Proses Ymgynghori
CDLl
Proses AoG / AAS
Ystyriaethau Iaith Gymraeg
Ystyried y math o CDLl (a chanllawiau cynlunio atodol)
Adolygu'r sail dystiolaeth. Pennu amcanion.
Sefydlu llinell sylfaen
1. Sefydlu llinell sylfaen – Cynllun Llesiant a data arall
Cytuno â phartneriaid
Paratoi amerlennia CCC (Cytundeb Cyflawni)
Asesiadau ychwanegol fel y bo angen
Pennu cwmpas yr AoG gan gynnwys amcanion a dangosyddion.
2. Dadansoddi data - gosod amcanion CDLl / AoG ar gyfer y Gymraeg
Ennyn Consensws
Nodi a phrofi opsiynau strategol. Llawlyfr (P.6)
Asesu opsiynau ar sail yr AoG
Trafod canlyniadau'r ymgynghoriad
Cyhoeddusrwydd i adroddiad ymgynghori ar gynigion y strategaeth
Paratoi adroddiad yr AoG
3. Asesiad yn erbyn amcanion:
Opsiynau CDLl
Polisiau drafft
Dyraniadau safle drafft
Paratoi'r adroddiad Ymgynghori cychwynnol
Paratoi a chyhoeddi CDLl adneuo at ymgynghoriad. Llawlyfr (P.7)
Ailgynnal yr AoG ar gyfer opsiynau newydd sy'n codi
Cronfa ddata o sylwadau
Hysbysebu cynigion newydd neu amgen ar gyfer safleoedd
Cwblhau Adroddiad yr AoG
4. Cynnig mesurau lliniaru ac ymyriadau positif
Diweddaru'r adroddiad Ymgynghori
Cyflwyno dogfennau adneuo. Llawlyfr (P.8)
Cynghori cynigwyr safleoedd amgen i'w profi drwy'r AoG
Archwiliad
Adroddiad rhywmol yr Arolygydd
Mabwysiadu CDLl
Diwygio Adroddiad yr AoG
Monitro. Llawlyfr (P.9)
Monitro'r AoG
5. Monitro a chadw'r sylfaen dystiolaeth wedi'i ddiweddaru
Adolygu

**Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd**

**Tabl 2.2: Y Fframwaith AC**

| **Fframwaith Amcanion yr AC** |
|---|
| **1. Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd**<br>***(Pynciau AAS: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Amddiffyn cyfanrwydd safleoedd dynodedig (rhyngwladol, cenedlaethol a lleol), ac osgoi cynefinoedd / rhywogaethau tameidiog<br>▪ Diogelu a mwyhau cynefinoedd bywyd gwyllt ar y tir ac yn y môr (yn cynnwys yr ased coetiroedd sylweddol a geir yn ardal y cynllun), a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig a threfol<br>▪ Cynnal a gwella'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd<br>▪ Diogelu a mwyhau'r safleoedd daearegol dynodedig a'r ddaear amrywiaeth ehangach<br>▪ Cynnal a mwyhau swyddogaeth chysylltedd ecolegol |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Y bioamrywiaeth a gollir drwy ddatblygiadau, a fesurir gan y safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl ar y Cyd a gollir neu yr effeithir arnynt<br>▪ Colled net y bioamrywiaeth yn ardal y CDLl a achosir gan ddatblygiadau<br>▪ % y nodweddion (amrywiol fathau) mewn cyflwr addawol, yn rhai ar dir ac yn y môr<br>▪ Cyrhaeddiad amcanion a thargedau y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (y DU, gwlad benodol / rhanbarthol / lleol)<br>▪ Tueddiadau a statws rhywogaethau / cynefinoedd Adran 42 NERC 2006<br>▪ Nifer ac arwynebedd y Safleoedd Cadwraeth Natur Arbennig (SINCs) a'r GNLl o fewn y Cynllun |
| **2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant ac iechyd a lles cymunedol**<br>***(Pynciau AAS: iechyd bodau dynol, y boblogaeth)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Bodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio<br>▪ Lleihau nifer y bobl mewn oed gwaith sy'n allfudo er mwyn cefnogi cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran y boblogaeth<br>▪ Gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau i gymunedau difreintiedig ac ardaloedd gwledig a gwella mynediad atynt.<br>▪ Hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol<br>▪ Cael gwared ar rwystrau a chreu cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach, e.e. hyrwyddo ymarfer corff (cerdded, beicio)<br>▪ Lleihau'r anghydraddoldeb iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ % y boblogaeth gyfan sydd â mynediad at wasanaethau allweddol<br>▪ mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. pobl dros eu pwysau, |

| **Fframwaith Amcanion yr AC** |
|---|
| gordewdra) – Arolwg Iechyd Cymru |
| **3. Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu**<br>***(Pynciau AAS: ffactorau hinsawdd, aer)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth, adeiladau a phrosesau cynhyrchu ynni<br>▪ Cefnogi ac annog datblygiadau newydd sy'n ynni effeithlon ac sy'n medru gwrthsefyll newid hinsawdd<br>▪ Integreiddio a hyrwyddo ynni adnewyddadwy a chynlluniau ynni carbon isel, ar lefel leol a chymunedol, a chynyddu'r galw am ynni a gyflenwir gan ffynonellau carbon isel<br>▪ Sicrhau y cynllunnir am addasiadau mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd ac sy'n isafu'r costau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ % y newid mewn allyriadau carbon deuocsid o'r sectorau diwydiant / masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd, newid mewn defnydd tir a choedwigaeth |
| **4. Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg**<br>***(Pynciau AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Gwarchod a mwyhau'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Nifer / % y siaradwyr Cymraeg |
| **5. Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol**<br>***(Pynciau AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol)*** |
| A fydd y cynllun yn…<br>▪ Sicrhau y gwarchodir asedau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol lleol (yn cynnwys eu gwarchod rhag datblygiadau newydd), ac y gwneir y mwyaf ohonynt er budd trigolion ac ymwelwyr<br>▪ Hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol er dibenion addysg a thwristiaeth / datblygiad economaidd |
| **Dangosyddion Arfaethedig**<br>▪ Nifer / newid yn yr adeiladau / asedau hanesyddol mewn perygl |
| **6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol**<br>***(Pynciau AAS: Poblogaeth)*** |
| A fydd y cynllun yn... |

| **Fframwaith Amcanion yr AC** |
|---|
| ▪ Hyrwyddo a hwyluso buddsoddiad i fusnesau lleol ar draws amrywiaeth o sectorau economaidd<br>▪ Gwella a mwyhau cyfleoedd cyflogaeth, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig<br>▪ Cefnogi'r diwydiant twristiaid drwy wneud gwelliannau amgylcheddol a gwella'r seilwaith, a chynorthwyo i wella adnoddau a seilwaith presennol<br>▪ Darparu mynediad at gyfleoedd am hyfforddiant, addysg a datblygu sgiliau i bob sector yn y gymuned |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Gweithgarwch economaidd fesul sector<br>▪ Statws cyflogaeth trigolion 16 mlwydd oed a throsodd<br>▪ Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn ac allan o ardaloedd yr awdurdod |
| **7. Darparu tai cynaladwy, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol**<br>***(Pynciau AAS:  y boblogaeth, iechyd bodau dynol)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Gwella ansawdd ac argaeledd y stoc tai presennol ar gyfer cymunedau difreintiedig<br>▪ Cyflwyno mwy o dai fforddiadwy a chynaliadwy gyda'r effaith leiaf bosib ar yr amgylchedd mewn ardaloedd gwledig a threfol<br>▪ Cyflwyno tai addasadwy sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol y cymunedau |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd / blwyddyn fel canran o'r holl unedau newydd |
| **8. Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun**<br>**(Pynciau AAS:  y dirwedd)** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Gwarchod a mwyhau nodweddion arbennig y dirwedd yn ardal y cynllun, yn cynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, y dirwedd arfordirol / morol a threfweddau<br>▪ Gwarchod a gwella ansawdd y mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn amgylchedd gwledig ac adeiledig<br>▪ Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u hintegreiddio'n briodol a sensitif gyda chymeriad y dirwedd a'r drefwedd yn ardal y cynllun |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Cyfran y tirwedd o ansawdd uchel / uchel iawn a nodir gan LANDMAP<br>▪ Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE<br>▪ Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio'n bwysig gan LANDMAP |

| **Fframwaith Amcanion yr AC** |
|---|
| |
| **9. Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu** <br> ***(Pynciau AAS: asedau deunyddiau, pridd)*** |
| A fydd y cynllun yn... <br> ▪ Blaenoriaethu datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes / tir llwyd addas heb effeithio ar fioamrywiaeth, asedau treftadaeth hanesyddol na'r dirwedd <br> ▪ Gwarchod ansawdd y pridd (y tir gorau a'r tir mwyaf amlbwrpas) <br> ▪ Hyrwyddo adfer tir wedi'i halogi ac osgoi / lleihau achosion o halogi pridd <br> ▪ Lleihau'r swm o wastraff a grëir a chefnogi symud tuag at hierarchaeth rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer datblygiadau presennol a newydd (yn cynnwys trwy rwydwaith gynaliadwy o gyfleusterau rheoli) <br> ▪ Diogelu swyddogaethau priddoedd sy'n cynnwys lliniaru llifogydd ac atafaeliad carbon. <br> ▪ |
| **Dangosyddion Arfaethedig:** <br> ▪ % / cyfran y datblygiadau ar dir a ddatblygwyd eisoes <br> ▪ % y gwastraff bwrdeistrefol a yrrir i safleoedd tirlenwi <br> ▪ % y gwastraff bwrdeistrefol a ailddefnyddir / ailgylchir <br> ▪ Arwynebedd pridd eliedig a'r arwynebedd o briddoedd carbon uchel / organig sy'n cael eu datblygu |
| **10. Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth a rhyngrwyd da i gefnogi'r gymuned a'r economi** <br> ***(Pynciau AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol)*** |
| A fydd y cynllun yn... <br> ▪ Gwella hygyrchedd mewn ardaloedd lleol, drwy gysylltu rhwydweithiau cludiant (cludiant cyhoeddus a heb gerbyd) â'r canolfannau gwasanaethu <br> ▪ Lleihau'r angen am deithio mewn ceir preifat, drwy wella'r seilwaith cludiant cyhoeddus <br> ▪ Blaenoriaethu hygyrchedd drwy gael opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd |
| **Dangosyddion Arfaethedig:** <br> ▪ Dull o deithio i'r gwaith - % y boblogaeth sy'n gweithio sy'n teithio mewn car <br> ▪ Canran y datblygiadau preswyl newydd ble y gellir cyrraedd cyfleusterau o fewn taith 30 munud ar gludiant cyhoeddus <br> ▪ Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau drwy gludiant cyhoeddus, cerdded a beicio <br> ▪ % y cynnydd yn y rhwydwaith seiclo <br> ▪ Cyfran y ffynonellau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur <br> ▪ Nifer o gyfleusterau ailwefru electronig a ffynonnellau tanwydd hydrogen sydd ar gael. |

| **Fframwaith Amcanion yr AC** |
|---|
| **11. Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd**<br>***(Pynciau AAS: dŵr, bioamrywiaeth)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Sicrhau bod ansawdd dŵr mewn afonydd, llynnoedd, dŵr daear a dyfroedd arfordirol yn cael ei warchod a'i wella<br>▪ Isafu'r llygredd tryledol o ardaloedd gwledig a threfol<br>▪ Gwarchod a mwyhau'r adnoddau dŵr a chefnogi integreiddiad mesurau effeithlonrwydd dŵr ymhob datblygiad newydd<br>▪ Isafu'r risg o bob math o lifogydd (llanw, afonol, dŵr daear a charthffosiaeth) i bobl ac eiddo drwy gynllunio'n briodol a dylunio cynaliadwy<br>▪ Hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr a mesurau addasu mewn datblygiadau newydd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd (e.e. SUD)<br>▪ Hwyluso datblygiadau ar diroedd nad ydynt mewn perygl o lifogydd |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ % [neu nifer neu gyfradd o'r cyfanswm] o ddatblygiadau newydd sydd â systemau draenio cynaliadwy<br>▪ % y cyrff dŵr sy'n meddu ar statws ecolegol da neu â'r potensial i fod â statws ecolegol da<br>▪ cyfradd / nifer terfynol y datblygiadau sydd ym mharthau C1 ac C2 (yn unol â diffiniad NCT 15) |

**Dull yr AC**

2.9 Mae'r Fframwaith AC hwn yn sail i'r broses o werthuso'r opsiynau strategol ar gyfer y lefel a'r dosbarthiad o dwf, yr opsiynau rhesymol ar gyfer safleoedd a pholisïau o 2012 i 2015. Cafodd y wybodaeth sylfaenol a'r adolygiad o'r cynlluniau a rhaglenni eu diweddaru yn 2013 a 2014; roedd y materion a'r problemau cynaliadwyedd ar gyfer y Cynllun Lleol yn parhau'r un fath, ac ystyrir bod y Fframwaith AC yn berthnasol o hyd, ac mae'n cael ei gadw at ddibenion parhad arfarnu. Mae'r crynodeb o'r wybodaeth waelodlin a'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni yn Adran 3, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

2.10 Yn ystod camau cynnar y gwaith o baratoi'r AC a'r Cynllun Lleol yn 2011-2013, defnyddiodd yr AC system o symbolau i gynrychioli canfyddiadau'r AC ar gyfer gwahanol elfennau o'r cynllun a oedd yn datblygu, sef:

**Tabl 2.3 Allwedd Dadansoddiad Cydweddoldeb o Weledigaeth ac Amcanion (2012)**

| | |
|---|---|
| ✓ | Yn Gydnaws â'r Amcanion |
| ✗ | Yn Anghydnaws â'r Amcanion |
| +/- | Ystod o ganlyniadau positif a negyddol posibl |